Adolygiad Ysgolion Ardal
Addysg Ôl 16
Opsiynau i Ysgol Uwchradd y Fflint

Ymgynghoriad i Bobl Ifanc

Rhaid i Gyngor Sir Fflint ystyried a yw ei ysgolion a'i adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl. Ar hyn o bryd mae'r drefn ymgynghori yng nghylch addysg Ôl-16 {Chweched Dosbarth] yn ardal y Fflint yn cael ei hadolygu. Mae Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir Fflint yn datgan bod gofyn cael mwy na 120 o fyfyrwyr ym mhob chweched dosbarth. Mae mwy na hynny mewn rhai ysgolion, ond llai mewn rhai eraill.

Ar hyn o bryd mae 92 o fyfyrwyr yn chweched dosbarth Ysgol Uwchradd y Fflint, a rhagwelir y bydd y nifer yn parhau rhwng 74 ac 82 o fyfyrwyr rhwng 2014 a 2019. Serch hynny mae'r ysgol yn disgwyl i'r niferoedd hyn fod yn uwch..

Mae myfyrwyr o Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Richard Gwyn yn teithio i ysgolion a cholegau eraill ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r ddwy ysgol wedi gwneud trefniadau anffurfiol i ddisgyblion Chweched gael mynediad i gyrsiau ei gilydd. .

Yr Opsiynau

1. **Cadw'r ddarpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd y Fflint. Defnyddio unrhyw leoedd gwag yn yr ysgol i ddibenion addysgol, hamdden neu ddiwylliannol eraill. Byddai modd cael mynediad i ddarpariaeth Chweched Dosbarth / Ôl 16 yn y canolbwynt newydd yng Nghei Connah o Fedi 2016. Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan Gyngor Sir y Fflint.**

O Fedi 2016 byddai'r Chweched Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Fflint yn cau a chanolbwynt newydd Ôl 16 yn cael ei adeiladu yng Nghei Connah. Golyga hynny y byddai dewis helaeth o gyrsiau ar gael mewn un ganolfan fodern a chyfoes, a fyddai'n costio £14.5 miliwn. Yn unol â Pholisi Cludiant Sir Fflint byddai cludiant ar gael am ddim i rai sy'n byw dros 3 milltir i ffwrdd.

2. **Cadw'r ddarpariaeth 11-19 yn Ysgol Uwchradd y Fflint a ffurfioli'r bartneriaeth rhyngddi ag Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Richard Gwyn er mwyn ceisio cynnal y ddarpariaeth ôl 16 rhwng y ddwy ysgol.**

Bydd cynaliadwyedd tymor hir yr opsiwn hwn yn dibynnu ar nifer y disgyblion o'r ddwy ysgol sy'n defnyddio'r ddarpariaeth Ôl 16 yn Ysgol Uwchradd Richard Gwyn ac Ysgol Uwchradd y Fflint, a p'un a fydd pobl ifanc yn dewis y ddarpariaeth Ôl 16 yn y canolbwynt newydd ar ôl iddo agor yn 2016.

I gael gweld y ddogfen ymgynghori gyflawn, ac i lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar lein ewch i : http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspxd

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Wedi i chi ystyried y wybodaeth ar y daflen hon a'r dogfennau eraill sydd ar gael ar Wefan y Cyngor Sir, rhowch eich barn am yr Opsiynau sydd ar gael.

Noder: Ni fydd modd i chi gofnodi gwrthwynebiad ffurfiol (rheswm drom anghytuno) yn y cam hwn. Os bydd y Cynghorwyr yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r Opsiwn sy'n cael ei ffafrio bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi pan fydd modd i unrhyw berson nodi eu gwrthwynebiad o fewn cyfnod o fis yn dilyn y cyhoeddi dan sylw..

Pa mor gadarn ydych chi o blaid <u>Opsiwn 1</u> i Ysgol Uwchradd y Fflint?	
Yn cytuno'n llwyr	O
Yn tueddu i gytuno	O
Ddim yn cytuno nac anghytuno	O
Yn tueddu i anghytuno	O
Yn anghytuno'n llwyr	O

Pa mor gadarn ydych chi o blaid <u>Opsiwn 2</u> i Ygsol Uwchradd y Fflint?	
Yn cytuno'n llwyr	O
Yn tueddu i gytuno	O
Ddim yn cytuno nac anghytuno	O
Yn tueddu i anghytuno	O
Yn anghytuno'n llwyr	O

Dywedwch pam ydych chi'n teimlo fel hyn? Disgrifiwch unrhyw opsiwn arall yr hoffech ei gynnig.

Ydych chi yn ….? TIciwch bob un sy'n berthnasol:

Disgybl ysgol gynradd	O	Disgybl Ysgol Uwch Bl 12 – 13	O	Mentor cyfoed	O
Disgybl Ysgol Uwch. Bl7 – 9	O	Llywodraethwr - disgybl	O	Swyddog ysgol	O
Disgybl Ysgol Uwch.Bl 10 – 11	O	Cynghorydd Ysgol	O		

Rhaid cyflwyno pob ymateb i'r ymgynghoriad cyn <u>14 Chwefror 2014.</u>

Diolch i chi am roi o'ch amser i gwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon.

Dylid dychwelyd y ffurflen hon i: Y Tîm Moderneiddio Ysgo lion,Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir Fflint, CH7 6ND.